**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR - DYDD IAU, 29 EBRILL 2021 DYDD IAU, 29 EBRILL 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: M. MOORE (CADEIRYDD)

Councillors
J. Holt (Deputy Chair)
G. A. Davies
L. Winnett
P. Edwards
J. Collins
M. Cook
M. Cross
N. Daniels
P. Baldwin
D. Davies
G. L. Davies
M. Day
D. Bevan
D. Hancock
K. Hayden
S. Healy
J. Hill
W. Hodgins
M. Holland
J. Mason
H. McCarthy
C. Meredith
J. Millard
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
K. Pritchard
K. Rowson
T. Sharrem
T. Smith

B. Summers
B. Thomas
G. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
D. Wilkshire
B. Willis

WITH:

| |
|---|
| Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Prif Swyddog Adnoddau |
| Prif Swyddog Interim Masnachol |
| Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol |
| Pennaeth Gwasanaethau Plant |
| Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata a Mynediad Cwsmeriaid |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-<br>Cynghorydd G. Collier<br>Cynghorydd L. Elias<br>Cynghorydd G. Paulsen | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau buddiant a goddefebau. | |
| No. 4 | **POLISI ARFAETHEDIG AR WEITHIO YSTWYTH** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol fod yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i'r polisi arfaethedig ar Weithio Ystwyth. Atgoffodd y Prif Swyddog Interim yr Aelodau fod y Cyngor wedi cytuno ar fodel gweithredu a threfniadau gwaith newydd y Cyngor ar 25 Mawrth 2021 oedd wedi cyflwyno model newydd o weithio ar draws y Cyngor. Mae'r trefniadau gweithio newydd yn cynnwys arferion gwaith modern a fyddai'n anelu i wella profiad gwaith gweithwyr, cynyddu perfformiad a chynhyrchiant a sicrhau'r gwerth mwyaf i'r sefydliad, yn ogystal â gwireddu buddion ariannol. Mae'r polisi Gweithio Hyblyg yn alluogydd allweddol wrth gyflwyno model gwaith y dyfodol ac mae hefyd yn gysylltiedig gyda gweledigaeth y Cyngor ar gyfer datblygu cynaliadwy sy'n cynnwys twf economaidd cynaliadwy a datgarboneiddio.<br>Amlinellodd y Prif Swyddog Interim Masnachol y pwyntiau allweddol yn yr adroddiad a nododd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r undebau llafur. Dywedodd y bu cynrychiolydd undeb yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol ar 16 Ebrill 2021 er mwyn egluro sefyllfa'r undebau. Yn dilyn trafodaethau yn y Pwyllgor Craffu gofynnwyd am ddiwygio'r polisi i adlewyrchu'r adborth o'r ymgynghoriad ffurfiol gan yr undebau llafur fel sy'n dilyn:-<br><br>• Y lwfans i weithwyr hyblyg i fod yn £15.60 y mis ac nid yn £12 fel yn y cynnig gwreiddiol<br>• Yr holl weithwyr presennol a ddynodwyd fel gweithwyr cartref neu ystwyth i fedru defnyddio lwfans hyd at £200 i dalu am gost cadair a desg addas i amgylchedd cartref. Defnyddir y lwfans gyda chyflenwr cyngor cymeradwy neu gelfi wedi eu hailgylchu; ac<br>• Unrhyw weithlu yn y dyfodol ar gyflog gradd 6 neu is a ddynodir fel gweithwyr cartref neu gweithwyr ystwyth i fedru defnyddio lwfans o hyd at £200 i dalu am gost cadair a desg addas i'r cartref. Defnyddir y lwfans gyda chyflenwr cyngor cymeradwy neu gelfi wedi ailgylchu.<br><br>Ychwanegwyd fod y Pwyllgor Craffu hefyd wedi awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth i gyflwyno cymal cymdeithasol ar gyfer recriwtio yn y dyfodol i sicrhau fod y Cyngor yn cadw swyddi yn lleol. Dywedwyd y cafodd y cais hwn ei ystyried ac mai'r cyngor cyfreithiol oedd fod cais o'r fath yn achosi risg o wahaniaethu anuniongyrchol posibl. Dywedodd y Prif Swyddog Interim yn unol â | |

| | | |
|---|---|---|
| | pholisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth y Cyngor mai nod y Cyngor yw cael gweithlu amlddiwylliannol amrywiol ac y cyflawnir hynny yn rhannol drwy ymarferion recriwtio. Gallai cynnwys cymal cymdeithasol o fewn y polisi recriwtio o bosibl fod yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol ac felly argymhellwyd peidio cynnwys y cymal cymdeithasol.<br><br>Yn nhermau gweithredu'r Polisi, dywedodd y Prif Swyddog Interim mai'r cyngor gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd oedd parhau i weithio gartref. Fodd bynnag, os cymeradwyir y polisi, cytunir ar ddyddiad 'mynd yn fyw' yn unol gyda'r rheoliadau Covid-19 cyfredol.<br><br>Ar y pwynt hwn, croesawodd y Prif Swyddog Masnachol gwestiynau/sylwadau gan Aelodau.<br><br>Gofynnodd Aelod os yw'r taliadau a wneir i staff yn debyg i awdurdodau eraill. Ni wyddai'r Prif Swyddog Interim Masnachol am daliadau a wneir mewn awdurdodau eraill a chredai fod Blaenau Gwent ar flaen y gad gyda chynghorau wrth adolygu eu harferion gweithio hyblyg. Fodd bynnag, mae'r taliadau a wneir i staff yn cydymffurfio gyda fframwaith cenedlaethol HMRC ac yn ddi-dreth i'r gweithwyr.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur nad oedd o blaid model gweithredu a threfniadau newydd y Cyngor a gymeradwywyd yn y Cyngor a'i fod wedi cynnig gwelliant. Gofynnodd Arweinydd y Grŵp Llafur os y cynhaliwyd asesiad effaith economaidd-gymdeithasol ac, os felly, lle medrid gweld yr wybodaeth yma.<br><br>Atebodd y Prif Swyddog Masnachol na chynhaliwyd asesiad effaith economaidd-genedlaethol. Dywedwyd mai dim ond yn ddiweddar y cyflwynwyd yr Asesiad felly roedd y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth i'r sgrinio effaith economaidd yn ystod y broses i sicrhau y byddid yn gwneud addasiadau rhesymol pan mae unigolion yn dod o fewn nodweddion penodol.<br><br>Roedd Arweinydd y Grŵp Llafur yn siomedig na ystyriwyd effaith economaidd-gymdeithasol a thanlinellodd fod y trefniadau gwaith newydd yn newid enfawr i'r ffordd y mae Blaenau Gwent yn gweithredu. Nodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor y cyflwynwyd gwelliant yn cynnig gohirio'r penderfyniad am 12 mis er mwyn i'r Cyngor fod yn fwy gwybodus am effeithiau'r trefniadau newydd ar y staff presennol staff y dyfodol a'r Fwrdeistref Sirol. | |

Nododd Aelod arall na chynhaliwyd asesiad effaith economaidd-gymdeithasol a dywedodd y daeth yr asesiad effaith i rym ym mis Ebrill. Felly gofynnodd yr Aelod os y gallai cynrychiolwyr cyfreithiol wirio y cyfrifoldeb.

Nododd Arweinydd y Grŵp Llafur ymhellach ei bryderon am ddiffyg mewnbwn gan Aelodau uwch o'r Cyngor nad ydynt mwyach yn cyflwyno adroddiadau a thybiodd os oedd rheswm dros yr arferion newydd.

Dywedodd Aelod ei fod wedi codi pryderon yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol yng nghyswllt swyddi gwag yn denu ymgeiswyr ar draws y wlad oherwydd natur ystwyth y swydd. Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig fod y Cyngor, fel y cyflogwr mwyaf, yn diogelu ein cymunedau a phobl ifanc drwy gadw'r swyddi hyn. Gallai'r Cyngor ddal i gael gweithlu aml-ddiwylliannol a gwarchod ein preswylwyr. Cytunodd Aelod arall gyda'r sylwadau a wnaed a chyfeiriodd at broblemau a gafwyd gyda staff nad ydynt yn adnabod Blaenau Gwent.

Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforol fod y Pennaeth Datblygu Sefydliadol wedi gofyn am gyngor cyfreithiol yn dilyn y Pwyllgor Craffu a dywedwyd y byddai'r Cyngor mewn risg o gyhuddiadau o wahaniaethu anuniongyrchol. Roedd y Swyddog yn gwerthfawrogi'r pwynt a wnaed yng nghyswllt rhagolygon swyddi lleol ar gyfer bobl ifanc, fodd bynnag mae grwpiau amlddiwylliannol yn cael eu tangynrychioli yng nghymoedd gogledd Gwent o gymharu gyda Chasnewydd a Chaerdydd. Felly os yw'r Cyngor yn rhoi ffafriaeth i breswylwyr lleol, byddai'r Cyngor o'i hanfod yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol o ran hil ac mae'n bwysig y rhoddir ystyriaeth i hyn.

Dywedodd yr Aelod y cafodd cymalau tebyg eu cynnwys yn y contractau a benodwyd i ddatblygu safle'r Gweithfeydd. Dywedodd yr Aelod nad wrthwynebiad i hil o hyn ond teimlad cryf ei bod yn bwysig i'r Cyngor warchod ein cymunedau a swyddi.

Cyfeiriodd Aelod at ganlyniadau'r arolwg yn Atodiad 3 a nododd fod y data yn dangos nad yw staff yn cymryd egwyliau digonol. Gofynnodd yr Aelod beth gafodd ei wneud yn dilyn canlyniad yr arolwg staff i sicrhau fod staff yn cymryd egwyliau priodol.

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol y bu'r gofyniad i gymryd egwyl o gyfrifiadur yn weithredol bob amser. Mae cyfrifoldeb ar weithwyr i gymryd egwyliau priodol ac ers y pandemig dylid parhau â'r egwyliau hyn a dylent ddod o fewn rhythm gweithio gartref. Mae cyfarfodydd llesiant un-i-un rhwng rheolwyr llinell a staff yn parhau i gael eu trefnu a chawsant eu cynllunio i fynd i'r afael â materion o'r fath a monitro llesiant. Felly, dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol nad oedd angen cyflwyno mecanweithiau ychwanegol gan eu bod yn cael eu cynnwys fel rhan o'r dull gweithredu arferol.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod y trefniadau gweithio newydd yn newid sylweddol i'r Cyngor ac ystyriwyd y ffordd y bu staff yn gweithio dros y 12 mis diwethaf fel rhan o'r broses. Os cymeradwyir y polisi, byddai'r ymgynghoriad gyda staff yn dechrau, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr na fyddai unrhyw newidiadau i drefniadau gwaith tua 900 o weithwyr. Os oes angen i addasiadau rhesymol gael eu gwneud i drefniadau gwaith, byddai hyn yn cael ei drafod gyda rheolwyr.<br><br>Yng nghyswllt cyfarfodydd ymgynghori gyda staff, cadarnhawyd y cynhelir y rhain cyn gynted ag sy'n ymarferol os cymeradwyir y polisi.<br><br>Yn dilyn yr arolwg a gynhaliwyd yr hydref diwethaf, cafodd y canlyniadau eu hystyried gan y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol a'u rhaeadru i Dimau Rheoli adrannol i sicrhau fod rheolwyr linell yn cyfnerthu'r angen am egwyliau rheolaidd ac i holi staff ar eu llesiant. Ni fyddai'r ffordd yma o weithio yn newid. Teimlai'r Rheolwr Gyfarwyddwr y byddai'r galwadau holi llesiant yn bwysicach byth gyda'r trefniadau gwaith newydd.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y byddai datblygu arweinyddiaeth wrth ochr ymgysylltu staff gan y byddai angen i reolwyr ac arweinwyr ar draws y sefydliad weithio mewn ffordd wahanol ac y cynhelir y prosesau hyn fel rhan o weithredu'r polisi.<br><br>Ychwanegodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y cynhaliwyd trafodaethau mewn cysylltiad gyda phob undeb llafur a theimlwyd fod yr Awdurdod a'r undebau llafur wedi cydweithio'n dda yn ystod y broses. Roedd cynrychiolydd undeb wedi mynychu'r Cyfarfod Craffu i egluro unrhyw sylwadau/cwestiynau a godwyd. Teimlai'r Rheolwr Gyfarwyddwr fod hyn yn gam blaengar i'r Cyngor a'i bod yn bwysig y caiff staff eu cefnogi yn ystod cam nesaf y gweithredu | |

| | | |
|---|---|---|
| | os cymeradwyir y polisi.<br><br>Ailadroddodd Arweinydd y Grŵp Llafur sylwadau a wnaed yn y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a chyfeiriodd at y cyngor cyfreithiol allanol a gafwyd. Teimlai'r Aelod y gallai'r awdurdod lleol ddal i gyflawni agweddau amlddiwylliannol ac fel Aelodau etholedig Blaenau Gwent mae'n bwysig gwarchod ein cymunedau a'n swyddi. Cododd yr Aelod bryderon am benderfyniadau brysiog ac atgoffodd Aelodau a Swyddogion am y problemau a achoswyd gan ymestyn y casgliadau ailgylchu newydd yn frysiog yn y Fwrdeistref. Felly teimlai Arweinydd y Blaid Lafur nad oedd dulliau o'r fath bob amser yn fuddiol i'n cymunedau.<br><br>Gofynnodd Arweinydd y Grŵp Llafur am sicrwydd na orfodid unigolion i weithio gartref os gwneir y cais hwn.<br><br>Ailddywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol na fyddai neb yn cael eu gorfodi i weithio mewn ffordd neilltuol. Byddai cyfle i staff godi unrhyw bryderon am y trefniadau gweithio newydd yn y cyfarfodydd ymgynghori un-i-un a byddid yn gwneud addasiadau rhesymol.<br><br>Felly ni fyddai unrhyw weithwyr yn cael eu gorfodi, fodd bynnag pe byddai swydd neilltuol yn wag, byddai'n cael ei dynodi i'r dull gwaith perthnasol ond ni fyddai deiliaid presennol swyddi yn cael eu gorfodi i weithio mewn ffordd nad ydynt yn teimlo'n gysurus â hi.<br><br>Croesawodd Arweinydd y Grŵp Llafur y cadarnhad na fyddai staff yn cael eu gorfodi i weithio gartref am ba bynnag reswm a nodwyd.<br><br>Nododd Aelod ei siom am golli'r Ganolfan Ddinesig i'r economi leol a theimlai fod cyflwyno'r polisi yn gam tuag at ddiwedd Blaenau Gwent. Cytunodd Aelod arall gyda'r sylwadau a wnaed a dywedodd fod colli'r gwaith dur wedi gweld nifer y bobl yn nhref Glynebwy yn gostwng yn sylweddol a roedd yn bryderus y byddai dymchwel y Ganolfan Ddinesig yn arwain at fwy o golledion.<br><br>Ailddywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol mai at ddim ond nifer neilltuol o'r gweithlu y mae'r trefniadau gweithio newydd yn berthnasol a bod gweithio ystwyth yn golygu y caniateid i staff fynychu swyddfeydd. Ychwanegodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod gweithrediadau sifil yn cael eu symud i'r Swyddfeydd Cyffredinol | |

yng Nglynebwy. Mae Vitec, Llys Einion a'r Depot Canolog i gyd yn parhau fel swyddfeydd i gael eu defnyddio gan staff. Byddai dymchwel y Ganolfan Ddinesig yn golygu y byddai darn o dir ar gael ar gyfer adfywio a thai a fyddai'n cynyddu'n sylweddol y nifer fyddai'n ymweld â chanol y dref.

Mewn ymateb i gwestiwn am nifer y gweithwyr cartref a weithwyr ystwyth, cyfeiriodd y Rheolwr Gyfarwyddwr at yr adroddiad sy'n amlinellu'r wybodaeth yma. Ychwanegwyd y gallai'r niferoedd hyn newid yn dilyn ymgynghori gyda staff.

Teimlai Aelod fod y trefniadau gweithio newydd yn mynd rhagddynt yn gyflym a gofynnodd faint o weithwyr oedd wedi gadael yr Awdurdod ers dechrau'r trafodaethau hyn. Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr nad oedd gwybodaeth am nifer y staff sydd wedi gadael a'r rhesymau dros hynny ar gael, fodd bynnag gellid ei ddarparu, er i'r Rheolwr Gyfarwyddwr ddweud fod trosiant staff fel yn y rhan fwyaf o sefydliadau mawr wrth i weithwyr ddatblygu eu gyrfaoedd y tu allan i'r Awdurdod.

Cyfeiriodd Aelod arall at drafodaethau mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Archwilio lle'r oedd Aelodau wedi codi pryderon am golli rheolwyr canol ac uwch profiadol. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn am i'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol gan nad oedd yr wybodaeth ar gael gan na chynhaliwyd archwiliad yn y maes hwn.

Dywedwyd fod arferion gwaith yn newid a bod staff yn croesawu'r newidiadau hyn. Teimlai Aelod arall yn nhermau'r ymgynghoriad fod yr undebau wedi eu cynnwys yn llawn ac iddynt fod yn ddiwyd wrth fynd â hyn drwy eu gwahanol undebau. Yn nhermau trosiant staff, nid yw'n anarferol i staff geisio symud ymlaen yn eu gyrfaoedd. Croesawodd yr Aelod y ffordd ymlaen ac roedd yn hyderus y cafodd diogelu ein staff ei ystyried n drwyadl ac roedd felly'n cefnogi Opsiwn 1.

Dilynodd trafodaethau pellach am y polisi yn nhermau ymgynghoriad a chadarnhawyd fod yr Awdurdod wedi gweithio gydag Unsain, Unite a GMB yn ystod y broses. Yn nhermau'r cymalau cymdeithasol ar gyfer recriwtio, atgoffwyd Aelodau fod y drefn recriwtio yn gadarn a bod gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau y penodir ymgeiswyr sydd â'r sgiliau angenrheidiol i wneud y swyddi perthnasol. Nodwyd y byddai'r gweithdrefnau cadarn hyn yn parhau yn eu lle.

Cyfeiriodd Aelod at drafodaethau yn y Pwyllgor Craffu a dywedodd y gofynnodd yr undebau am gymal cymdeithasol yn ystod yr ymgynghoriad gan y teimlai'r undebau hefyd ei bod yn bwysig cadw'r swyddi lleol.

Codwyd ymholiad am y pwysau cost a amlinellir yn yr adroddiad a chadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau y cafodd yr wybodaeth ariannol a fanylir yn yr adroddiad ei modelu ar y rhifau a amlinellir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y newidiadau hyn yn newid unwaith y cynhaliwyd y cyfarfodydd un-i-un i sicrhau fod yr wybodaeth ariannol gywir ar gael.

Gobeithiai'r Aelod fod y trefniadau gweithio newydd yn parhau i roi'r un lefel o gyfathrebu a pharhad gwasanaethau i Aelodau etholedig gan holl swyddogion yr Awdurdod. Ychwanegodd y Prif Swyddog Masnachol y byddai'r polisi yn parhau i sicrhau fod y Cyngor yn parhau i weithredu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol ar gyfer preswylwyr ac aelodau Blaenau Gwent.

Teimlai Aelod y cafodd y pryderon a godwyd eu hateb yn nhermau staff heb fod yn cael eu gorfodi i weithio gartref ac y byddai llesiant gweithwyr yn parhau'n hollbwysig. Nododd Aelodau y byddai achlysuron lle caniateid i weithwyr cartref fynychu'r swyddfa ar gyfer cyfarfodydd, felly os nad oes ymgeiswyr tu allan i'r Fwrdeistref, byddai'n dal i fod angen iddynt ddod i Flaenau Gwent.

Gofynnodd Arweinydd y Grŵp Llafur os y byddai gweddill costau ailwampio'r Ganolfan Ddinesig yn cael eu cyflawni gan werthu'r tir neu eu gadael i'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor. Cadarnhaodd y Prif Swyddog fod y ddyled sydd ar ôl ar y benthyciad yn rhan o gyllideb barhaus y Cyngor ac y byddai'n caniatáu i ffurfio rhan o'r gyllideb nes caiff ei ad-dalu. Caiff ei chyllido yn rhannol gan grantiau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, incwm arall y Cyngor a chadarnhaodd y byddai trethdalwyr Blaenau Gwent yn talu cyfran o'r costau. Mynegodd Arweinydd y Grŵp Llafur y gallai'r costau hyn ddisgyn ar y rhai sy'n talu'r dreth gyngor.

Nododd Arweinydd y Cyngor y sylwadau a wnaed yng nghyswllt y polisi Gweithio Hyblyg arfaethedig a model gweithredu a threfniadau gwaith newydd y Cyngor a gymeradwyodd y Cyngor ar 25 Mawrth 2021. Byddai gweithredu'r polisïau hyn yn gweld creu hybiau cymunedol yng nghanol trefi a'r Hyb Democrataidd yn y Swyddfeydd Cyffredinol, Glynebwy. Dywedodd yr Arweinydd fod

Llywodraeth Cymru yn glir y dylai 30% o weithlu'r Cyngor weithio gartref neu o bell a bod y trefniadau gweithio newydd fod y Cyngor yn cydnabod yr angen i ddatblygu arferion gweithio modern.

Yn nhermau gweithio o fewn cylch Blaenau Gwent, cytunodd Arweinydd y Cyngor gyda sylwadau'r Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol a theimlai byddai'r sefydliad yn fwy deniadol i ymgeiswyr o gael trefniadau gweithio ystwyth. Teimlai'r Arweinydd y gallai staff yn gadael yr Awdurdod fod oherwydd ymddeoliad neu ddilyniant yn eu gyrfaoedd ac ni wyddai am weithwyr oedd wedi gadael oherwydd cyflwyno'r polisi.

Yng nghyswllt y sylwadau a godwyd am ddiwedd Blaenau Gwent, anghytunai Arweinydd y Cyngor a theimlai y byddai'r trefniadau gweithio newydd yn gwneud Blaenau Gwent yn gryfach yn y blynyddoedd i ddod. Yn nhermau gohirio'r trefniadau gweithio newydd, teimlai Arweinydd y Cyngor na fyddai'r sefyllfa yn newid. Gwnaed llawer iawn o waith gyda swyddogion mewn cysylltiad â'r undebau llafur ac mae'r gweithlu'n croesawu'r ffordd newydd mewn gweithio.

Croesawodd Arweinydd y Cyngor yr adroddiad a chafodd y pryderon am iechyd a diogelwch staff eu trin yn llawn. Mae hefyd yn cysylltu gyda gweledigaeth y Cyngor am ddatblygu cynaliadwy yn cynnwys twf economaidd cynaliadwy, datgarboneiddio ac iechyd a llesiant staff a'r gymuned, a gofynnodd Arweinydd y Cyngor am gymeradwyo opsiwn 1.

Ar y pwynt hwn, cynigiodd Arweinydd y Grŵp Llafur yr **argymhelliad amgen** dilynol:-

- Gohirio'r adroddiad hwn nes ceir papur arall sy'n mynd i'r afael yn iawn ag effaith economaidd-gymdeithasol y polisi;
- Bod y papur newydd hefyd yn ymchwilio'r potensial am sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i breswylwyr Blaenau Gwent ar gyfer cyflogaeth; ac
- Y caiff gweddill cost ailwampio'r Ganolfan Ddinesig eu talu drwy werthu'r tir ac nid gan y rhai sy'n talu'r dreth gyngor.

**Eiliwyd y cynnig amgen.**

Felly gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi.

**O blaid y cynnig amgen –** Cynghorwyr

P. Baldwin, D. Bevan, M. Cross, P. Edwards, K. Hayden, H. McCarthy, J. Millard, J.C. Morgan, T. Sharrem, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, B. Willis ac L. Winnett.

**Yn erbyn y cynnig amgen** – Cynghorwyr J. Collins, M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G. L. Davies, M. Day, D. Hancock, S. Healy, J. Hill, W. Hodgins, J. Holt, J. Mason, C. Meredith, M. Moore, J. P. Morgan, L. Parsons, K. Rowson, B. Summers, B. Thomas, G. Thomas, J. Wilkins.

**Ymataliodd** y Cynghorydd K. Pritchard rhag pleidleisio ar y cynnig amgen.

**Ni chariwyd y bleidlais ar y cynnig amgen.**

Wedyn cynigiodd Arweinydd y Grŵp Annibynnol **Opsiwn 1 (ospwin a ffafrir).**

**Eiliwyd y cynnig hwn.**

Felly gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi.

**Yn erbyn Opsiwn 1 (opsiwn a ffafrir) –** Cynghorwyr P. Baldwin, D. Bevan, M. Cross, P. Edwards, K. Hayden, H. McCarthy, J. Millard, J.C. Morgan, T. Sharrem, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, B. Willis a L. Winnett.

**O blaid Opsiwn 1 (opsiwn a ffafrir)** – CynghorwyrJ. Collins, M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G.L. Davies, M. Day, D. Hancock, S. Healy, J. Hill, W. Hodgins, J. Holt, K. Pritchard, J. Mason, C. Meredith, M. Moore, J.P. Morgan, L. Parsons, K. Rowson, B. Summers, B. Thomas, G. Thomas, J. Wilkins.

**Cariwyd y bleidlais ar Opsiwn 1 (opsiwn a ffafrir)**.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac opsiwn 1; sef bod y Cyngor yn cymeradwyo'r polisi Gweithio Ystwyth a atodwyd gyda'r adroddiad,